

HAWDD credu mai Saeson sydd a'u cyfenw yn 'Rothwell'. Nid felly ymhobman. Ym Môn ym mhentrefi Moelfre, Penysarn, Nebo, cymdeithas Llancilian a thref Amlwch mae llawer wedi arddel 'Rothwell' a'r cyfan yn Gymry glân gloyw.

Cyfenw mam oedd Rothwell ac fe gadwodd yr enw yn y teulu - Richard Rothwell, Thomas Rothwell a minnau, David Rothwell er mai 'Herbert' yw'n cyfenw erbyn hyn.

Y Rothwell cyntaf i ddod i'r ardal oedd Richard Rothwell, brodor o Bolton a ddaeth yn beiriannydd mwngloddio i Rosymynach ar ochr ddwyreiniol Mynydd Eilian, tua hanner ffordd rhwng Goleudy'r Leinws a thraeth Dulas. Dechreuwyd mwngloddio copr yma rhwng 1827 a 1832.

Y gred oedd fod gwythien gopr yn ymestyn i'r dwyrain o Fynydd Parys i gyfeiriad Clogwyn Mawr Llandudno (y Great Orme).

Ynghanol y ganrif y cyrhaeddodd Richard Rothwell yr ardal a byddai'n un o gwsmeriaid tafam y 'Bull' yn Nebo, sydd wedi cau ers llawer dydd er bod yr adeilad yn sefyll.

Ar y 1af o Hydref, 1857 fe briododd Richard Rothwell, Ann Williams, merch y 'Bull Inn', Nebo. Ganwyd Richard Samuel Rothwell ac Albert John Rothwell yn 1858 a 1860 ym Mryn Glas, Llancilian, a merch, Elizabeth Ann Rothwell ym Mryn Ednyfed, Porth Amlwch.

Roedd trychineb wrth law. Bu Richard Rothwell farw ar y 27ain o Ragfyr, 1861 a'r fechan ond yn saith wythnos oed. Mae ei fedd wrth ddrws Eglwys Eilian a'r garreg yn nodi nad oedd ond wyth a deugain oed.

Nid oedd dim i'r weddw Ann ei wneud gan ei bod yn gyfrifol am y tri bychan, tair a hanner, dwy flwydd, ac ychydig wythnosau oed, ond dychwelyd i benre Nebo i gadw siop bob peth. Arhosodd Richard Samuel yng ngofal ei fam. Ann; Albert John gyda chwaer Ann, Margaret, a'r eneth fach yng ngofal ei Nain yn y 'Bull'.

Mac llyfr gwaith Richard Samuel ar gael, yn dangos esiampl wych o waith bachgen deuddeg oed yn y flwyddyn 1870. Disgybl oedd yn yr 'Amlwch Academy' (Ysgol John Sellars) yn cael ei baratoi at yrfa yn y môr.

Priododd chwaer Ann (Modryb) Margaret i Richard Samuel) Capten Thomas Rowlands o fferm Penrhyn, Penrhoslligwy a gymerodd ofal y bachgen pedair ar ddeg oed ar fwrdd ei long. Perthyn i gwmini James Fisher, Barrow-in-Furness oedd y llong newydd 'Bella Tumilty', barquentine o 203 o dunelli wedi cael ei gwneud yn Berwick on Tweed. Dyrchafwyd Richard Samuel i safle llongwr cyn pen blwyddyn ac mewn pum mlynedd ef oedd y 'Bosun'. Cafodd ddau

TEULU ROTHWELL

Bu *Tybio ond mudo i'r môr y trawswn ar bob trysor* nid yn unig yn freuddwyd ond hefyd yn fater o raid i filoedd o Gymry oedd am gadw corff ac enaid ynghyd. Ond fe ddaeth y dyddiau hynny i ben, ac eto mae'r cof yn aros hyd heddiw ar lawer acwlyd am ddyddiau cated pan fyddai'n cydwladyr yn crwydro moroedd hyd. Ac yma y mae D. Rothwell Herbert yn olrhain hanes mordeithiau ac anturiaethau aelod o'r teulu o Fôn.

gyfnod fel mêt yn 1878 heb fod eto yn ugain oed.

Er ehangu ei brofiad gwasanaethodd am chwe mis ar fwrdd y llong 'Baron Hill' o Lerpwl yn 1876 (Gorff. hyd Rhagfyr).

Ar y trydydd o Fehefin, 1880, pasiodd Richard Samuel Rothwell arholiad mêt yn Abertawe ac ail dechreuodd ei gysylltiad fel Mêt swyddogol y 'Bella Tumilty', ac yntau eto ond yn ddwy ar hugain oed.

* * *

GADAWODD y 'Bella Tumilty' borthladd Abertawe cyn diwedd mis Medi, 1880, yn cario llwyth o lo a thanwydd i Tucacas, Venezuela. Erbyn hyn 'roedd Capten Thomas Rowlands yn drigain oed a phosiblwydd ei fod wedi ymdeol i ffarmio (yn Census 1881, mis Ebrill, recordiwyd ei fod yn ffarmio pymtheg a deugain o aceri). Beth bynnag, enw y Capten ar y fordaith yma oedd Evans a'r mêt oedd Richard Samuel Rothwell.

Ynghanol Tachwedd mae'n ymddangos fod Capten Evans yn hwylio'r llong yn ôl gofynion siart cyffredin Laurie. Cyhoeddwyd y siart yma o'r 'West Indies a'r Gulf of Mexico' yn 1878, ond ddwy flynedd ynghynt 'roedd Goleudy 'Los Roques' yn cael ei ddangos yng nghongl dde-ddwyreiniol Ynys 'Cayo Grande' - y fwy i'r de o'r ynysoedd. Gosododd y Capten ei gwrs i glirio yr ynysoedd o bellter digonol, gan greu wrth gwrs, fod y Goleudy yn cael ei ddangos yn gywir.

Ysywaeth 'roedd y Goleudy rhwng deuddeg a phymtheg milltir i'r gogledd-orllewin o'r sefyllfa yma ac nid ar y Cayo Grande o gwbl ond ar Ynys 'El Roque', yr ynys fwyra gogleddol o'r ynysoedd i gyd.

Ar siart y Llynges dyddiedig 1876, ddwy flynedd ynghynt, lleolir y Goleudy yn ei le priodol. Mae'n bosibl fod cyhoeddwy'r siart Laurie wedi cael eu camarwain gan rybudd a gyhoeddwyd yn y 'West Indian Pilot' 1872 fod Llywodraeth Venezuela yn bwriadu codi Goleudy ar y Cayo Grande erbyn 1875.

Beth bynnag, mae'n hollol resymol fod Capten Evans, y 'Bella Tumilty', wedi dilyn cwrs diogel yn ôl y wybodaeth oedd ganddo. Teimlai'r llys ymchwiliad (Chwefror 1881) fod

pob cyfiawnhad iddo pe buasai y Goleudy yn y sefyllfa y tybiai. 'Roedd sefyllfa y llong am 6.15 yr hwyr yn iawn yn ôl y 'Bearing' a gymerwyd ar y pryd.

Hefyd 'roedd pob cyfiawnhad i'r Capten newid ei gwrs am 08.00 yr hwyr. Yn ôl pob golwg 'roedd y criw yn effeithiol o wylidwrs.

Bamodd y Llys i'r Capten gollu ei fywyd trwy gael ei olchi tros y bwrdd gan fôr oedd yn torri dros y llong. Ceisio paratoi rhaff yr oedd i sicrhau diogelwch tri dyn oedd ar ôl ar fwrdd y llong.

Credai'r Llys nad oedd siartiau cyffredinol yn rhoi gwybodaeth ddibynadwy, ac y dylesid bod ag amrywiaeth ohonynt ar fwrdd llong.

* * *

YN DILYN yr Ymchwiliad i gollod y 'Bella Tumilty' bu Richard Samuel yn Feistr ar y Sgwner 'Glenraval Miner' o Barrow am brin fis yn ystod haf 1881 ac wedyn am ddwy flynedd a hanner yn Feistr y barquentine 'Doctor', 148 o dunelli o Barrow.

Mae llythrau ar gael yn dangos ei fod yn brin o amser pan oedd ar y môr i sefyll arholiad am ei docyn Meistr a bu raid iddo wneud un fordaith o ddau fis a hanner ar fwrdd yr 'Umgeni', barquentine o Lerpwl.

Pasiodd arholiad Meistr yn Abertawe ar y 26ain o fis Awst, 1884 ac yntau yn 26ain oed. Dilynodd gyda gwasanaeth fel Mêt y 'County of Cardigan' yn 1885; Meistr yr 'Owain Tudur' yn 1886 gyda gwasanaeth ar y 'Bonny Princess' yn 1887.

Gweithredodd fel Mêt yr agerlong 'Teutonia' o'r flwyddyn 1888 hyd 1890; ei ffrind Carruthers oedd y Meistr a'i frawd yng nghyfraith, Evan Evans o Port Dinorwic yn llongwr ar ei bwrdd. Mae'n ymddangos erbyn hyn ei fod wedi cael ategu ei docyn Meistr (y rhif wedi newid o dystysgrif rhif 08374 i 039555, yr ategiad yn caniatáu llongau stêm).

Trosglwyddwyd perchennogaeth y 'Teutonia' yn 1889 i gwmini Elder Dempster o Lerpwl, a rhwng 1889 ac 1896 gwasanaethodd Richard Samuel fel Mêt ar bedair o llongau'r Cwmni, a rhwng 1896 ac 1906 fel Meistr ar wyth o llongau, y rhain i gyd yn cario nifer o deithwyr.

'Roedd yn Gaptin ar y 'Cabenda' yn 1903 a 1904; ar un adeg enw y llong yma a adeiladwyd yn 1890 oedd yr 'Oil

Rivers' ond gorfu i'r Cwmni ei thynnu allan o wasanaeth gan fod colledion bywyd ar ei bwrdd mor drwm.

Gellir credu fod dioddef o'r Malaria a'r Clwyf Melyn yn drwm ar y llongau oedd yn tradio i Orllewin Affrica a hawdd dirnad mai Alfred Lewis Jones, pennaeth Cwmni Elder Dempster a sefydlodd yr Ysgol Feddyginiaeth (School of Tropical Medicine) yn Lerpwl.

Dim rhyfedd chwaith fod Richard Samuel Rothwell, fel llawer craill o'r Meistri yn dioddef o'r Malaria ac iddo ymddiswyddo yn 1906 ac ymuno â chwmni McNeill, Hinde o Gaerdydd fel Meistr/rhan Berchennog o'u llongau yn cychwyn efo'r 'Portsmouth' ac yna long newydd, y 'Portland', 4,800 o dunelli o 1907 ymlaen. Galwodd y llong yn Chatham, New Brunswick ym mis Mai, 1910 i lwytho coed i Limerick a Garston.

Bryd hyn 'roedd y Capten yn wirioneddol wael, ei fodrwy, meddai mewn llythyr adref, yn disgyn oddi ar ei fys. Cynghorwyd ef i lanio er mwyn cael scibiant a chyfic i orffwys. Rhuthrodd ei wraig, Ellen, o Nebo ger Penysarn ar draws Môr Iwerydd a chyrhaeddodd Chatham mewn amser. Bu Richard Samuel Rothwell farw yn yr 'Hotel Dieu' a gosodwyd ef i orffwys yn y Riverside Cemetery.

Yn ystod mis Mai, 1987 ymwelodd Swyddog o Fanc y Byd, Washington a'r fynwent er mwyn cael gweld bedd ei hen daid. Ei enw, Richard Rothwell Herbert.

* * *

CASGLWYD y nodiadau yma at ei gilydd yn 1988 gan David Rothwell Herbert (mab ieuengaf Annie Lucretia, merch hynaf Capten Richard Samuel Rothwell).

Ac ym mediant y teulu ym Môn mae'r trysorau teuluoel isod:

Llun (mewn olew) o'r 'Bella Tumilty' gan I. Rowcliffe, Fleetwood, 1874.

Potel yn cario gwmon o Ynys Cayo Grande.

Potel yn cario cregyn o Ynys Cayo Grande (wedi eu casglu gan R.S. Rothwell amser y llongdrylliad).

Llun (mewn olew) o'r 'Portland', Ted Acland, 1908

86 o gardiau post wedi cael eu gyrru rhwng 1899 a 1910.

Llyfr ysgol R.S. Rothwell yn ddeuddeg oed pan oedd yn dilyn Ysgol Sellars, Amlwch (1870)

Darn tair ceiniog - Y Frenhines Victoria ar un ochr ac yn ysgrifenedig ar yr ochr arall: Capt. Rothwell s.a. Cabenda. Prydles rhwng Lady Neave ac R.S. Rothwell ar gyfer 'Frondeg', Nebo, 1898.

Llythrau personol oddi wrth R.S. Rothwell at ei wraig a'i ferch.